



Dyddiad cyhoeddi: 17 Chwefror 2020

Contractau cerbydau newydd Trafnidiaeth Cymru

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth a ystyriwyd yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a'n polisi mynediad at wybodaeth. Gallaf gadarnhau ein bod yn cadw'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Gofynnwyd am: **gopi o'r contract mae Trafnidiaeth Cymru yn rhan ohono mewn perthynas â chyflenwi cerbydau newydd.**

Dyfarwyd contractau er mwyn darparu stoc cerbydau newydd Trafnidiaeth Cymru i CAF (Dosbarth 197 *Civity*), Stadler Rail (Dosbarth 231 FLIRT, Dosbarth 756 FLIRT a Dosbarth 398 *Citylink*) a Vivarail (Dosbarth 230 *D-Train*).

Mae Trafnidiaeth Cymru o'r farn bod y contractau ar gyfer y cerbydau newydd hyn yn cynnwys gwybodaeth fasnachol gyfrinachol a phriodoldeb, a byddai datgelu'r wybodaeth honno'n debygol o niweidio buddiannau masnachol CAF, Stadler a Vivarail.

Mae'r eithriadau canlynol i'r hawl mynediad dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) wedi'u cymhwyso:

- A.41 (Torri cyfrinachedd cyfreithadwy) Darparwyd rhywfaint o wybodaeth yn y contractau i Trafnidiaeth Cymru dan rwymedigaeth cyfrinachedd. Byddai datgelu'r wybodaeth dechnegol hon gan Trafnidiaeth Cymru yn gyfystyr â thorri cyfrinachedd cyfreithadwy.
- A43(1) ac A43(2) (Niwed i fuddiannau masnachol). Gwybodaeth, gan gynnwys dadansoddiadau manwl o brisio, lleihau risg, nodi isgontractwyr posibl, manylebau technegol manwl a gwybodaeth a fyddai'n debygol o effeithio ar fantais gystadleuol CAF, Stadler a Vivarail. Mae rhywfaint o'r wybodaeth, oherwydd ei natur dechnegol, yn gyfystyr â chyfrinach fasnach hefyd ac felly'n destun esemptiad o dan a43(1). Er ein bod yn cydnabod y bydd cryn ddiddordeb yn agweddau mwy technegol y contractau, rydym o'r farn y byddai'n niweidio ein gallu i ymgysylltu â chyflenwyr yn y dyfodol, hyd yn oed pe na bai'r datgeliad yn arwain at gamau gweithredu am dorri cyfrinachedd.

Mae'r defnydd o'r eithriad hwn yn amodol ar asesiad o fuddiant y cyhoedd mewn perthynas â datgelu'r wybodaeth dan sylw. Yn yr achos hwn, mae ffactorau o blaid datgelu, megis budd cyffredinol y cyhoedd o ran tryloywder a bod yn agored, yn cael eu gwrthbwysu gan y niwed posibl i weithrediad effeithiol y broses ymgeisio. Felly, byddai datgelu'n debygol niweidio gallu Trafnidiaeth Cymru i gael y gwerth gorau o'i brosesau caffael, gan arwain at gynyddu'r gost i'r cyhoedd, naill ai drwy drethiant neu brisiau tocynnau uwch, a gallu CAF, Stadler neu Vivarail i gystadlu'n gyfartal â chwmnïau eraill. Nifer cyfyngedig o gwmnïau sy'n gallu gwneud cais am gontractau o'r fath ac mae CAF, Stadler a Vivarail yn debygol o gael eu hunain yn



cystadlu am gontractau tebyg yn y dyfodol. Yn yr achos hwn, rydym o'r farn mai budd y cyhoedd yw cael y gwerth gorau o'r farchnad, gan barchu rhwymedigaethau datganedig a goblygedig cyfrinachedd sy'n cael eu creu drwy'r broses gaffael.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cydnabod yr angen i awdurdodau cyhoeddus fod yn agored a thryloyw, ond yn yr achos hwn gan y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn debygol o niweidio gallu Trafnidiaeth Cymru i gael y gwerth gorau o'i phroses gaffael a gallu CAF, Stadler a Vivarail i gystadlu â chwmnïau eraill, ystyrir bod budd y cyhoedd yn ffafrio defnyddio'r eithriad.

Gweler y daflen wybodaeth amgaaedig am fanylion eich hawl i apelio.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Trafnidiaeth Cymru.

Yn gywir

Jeremy Morgan

Swyddog Rhyddid Gwybodaeth